# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
# (Galw Penderfyniad i Mewn)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd);<br><br>Cynghorwyr E.G.Davies; W.I.Hughes; R.Dylan Jones; Eric Roberts; Hefin W.Thomas; J.Penri Williams;<br><br>Aelodau “Galw i Mewn” – Y Cynghorydd Lewis Davies; Y Comisiynydd Mick Giannassi; Aelod Portffolio Cysgodol – Y Cynghorydd R.G.Parry OBE; |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo);<br>Rheolydd Sgriwtini (BS);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W.T.Hughes; Eric Jones; R.L.Owen; Ieuan Williams; |

---

*Cyn cychwyn ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod , eglurodd y Comisiynydd bod y penderfyniad wedi ei wneud ganddo ef yn dilyn cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) a’i fod wedi ymgynghori gyda’r Aelod Portffolio Cysgodol mewn perthynas â’r penderfyniad.*

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

**2** Mabwysiadwyd yr isod:-

*Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

**3. MATERION A GYFEIRIWYD I’R PWYLLGOR AM SYLW MEWN PERTHYNAS Â GALW CAIS I MEWN**

Cyflwynwyd i’r Pwyllgor ffurflen Galw Penderfyniad i Mewn, a gwblhawyd ac a lofnodwyd gan 5 Aelod o'r Cyngor Sir sef y Cynghorwyr Eurfryn Davies (yr Aelod a oedd yn Arwain o ran y broses Galw i Mewn), W.I. Hughes; Fflur M.Hughes; R.L. Owen a Lewis Davies.  Roedd y mater yn ymwneud â Phenderfyniadau Gweithredol a wnaed gan y Comisiynydd ar gyfer Eiddo a Mân-ddaliadau, Mr M Giannasi.

Cyflwynwyd hefyd fel rhan o’r Rhaglen ar gyfer y cyfarfod Gofnod o'r Penderfyniad dyddiedig 24 Ebrill 2012 ynghyd ag adroddiad eglurhaol yn amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad.  Dywedodd y

Cadeirydd mai cymal 3 oedd yr unig fater dan sylw a bod gweddill y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynwyr wedi eu derbyn gan yr Aelodau ac y gallai'r Swyddogion felly eu gweithredu.

Fel yr Aelod a oedd yn arwain o ran galw'r penderfyniad i mewn, amlinellodd y Cynghorydd Eurfryn Davies ei resymau dros alw'r penderfyniad i mewn. Yn fyr, galwyd y penderfyniad i mewn oherwydd nad oedd pwyllgor rheoli'r neuadd wedi derbyn gwybodaeth ynghylch costau rhedeg yr adeilad dan brydles (Gweler Atodiad C, pwynt 5 yng nghyflwyniad y Pwyllgor ynghylch Prydlesu). Pe baent wedi derbyn y wybodaeth, yna byddai'r pwyllgor rheoli efallai wedi medru ystyried y naill opsiwn neu'r llall.

Ymatebodd y Comisiynydd Giannasi trwy roi manylion ynghylch cefndir y mater a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad a wnaed. Dywedodd ei fod wedi dibynnu'n drwm ar yr Aelod Portffolio Cysgodol a'r Swyddogion am eu gwybodaeth leol a chadarnhaodd bod y penderfyniad wedi ei wneud yn unol â phenderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn 2011. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) y gwahaniaeth rhwng Prydles a Trosglwyddiad Ased ac esboniodd ei fod yn credu nad oedd ganddo awdurdod i drafod telerau prydles gyda'r Pwyllgor oherwydd bod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Ionawr 2011 yn dweud yn glir mai trosglwyddiad ased y dylid ei gynnig. Ymhelaethodd ar y goblygiadau cost ynghylch prydles / gwerthu'r eiddo. Cafwyd manylion hefyd ynghylch costau mewn perthynas â chynnal yr adeilad ac esboniodd mai'r Cyngor fyddai'n gorfod cwrdd â'r costau hynny pe bai'n rhoi prydles. Yn y fath achos, byddai'n rhaid codi'r rhent i adlewyrchu hynny. Ychwanegodd yr Aelod Portffolio Cysgodol bod gwerth dros £1m o waith trwsio i'w wneud ar hyn o bryd o'r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal ac na allai'r Cyngor gwrdd â chostau trwsio Neuadd Llansadwrn.

Rhoddwyd cyfle i'r holl Aelodau fynegi barn ar y penderfyniad a wnaed.

Codwyd sawl cwestiwn a gwnaed sylwadau h.y.

- Pam na chafodd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ei rhoi i Bwyllgor Rheoli Neuadd Llansadwrn fel bod mod iddo ystyried cais am brydles;
- Gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried datblygu polisi priodol i ddelio gydag eiddo gweigion yn y dyfodol;
- Derbyniwyd na lwyddwyd i fwrw ymlaen gyda'r mater hwn o fewn amserlen resymol oherwydd diffyg capasiti yn yr Adain Eiddo;

Mewn ymdrech i symud y mater yn ei flaen, esboniodd y Comisiynydd nad oedd cynnig prydles i Bwyllgor Llansadwrn yn opsiwn y byddai'n fodlon cytuno iddo. Fodd bynnag, nododd y gallai'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol efallai ystyried bwrw ymlaen ar ddau drywydd h.y. marchnata'r adeilad i'w werthu ar y farchnad agored ac, ar yr un pryd cynnal trafodaethau gyda Phwyllgor Llansadwrn fel eu bod yn llwyr ymwybodol o oblygiadau Trosglwyddiad Ased a'r costau cysylltiedig â rhoi dau fis i'r Pwyllgor gyflwyno Achos Busnes. Addawodd y byddai'n rhoi sylw manwl i Achos Busnes pe bai'r Pwyllgor yn cyflwyno un. Roedd yr Aelodau yn cytuno'n llawn gyda'r awgrym a wnaed gan y Comisiynydd.

Cadarnhaodd y Rheolydd Sgriwtini y broses ar gyfer Galw i Mewn ac amlinellodd y naill a'r llall o'r ddau opsiwn y gallai'r Pwyllgor eu dilyn mewn cyfarfod Galw i Mewn.

Oherwydd bod rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch Cymal 3 y Rhybudd o Benderfyniad mewn perthynas â Chanolfan Gymunedol Llansadwrn, Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas, gyda'r Cynghorydd Eric Roberts yn eilio y dylid gofyn i'r Comisiynydd ailystyried ei benderfyniad yn seiliedig ar yr ymrwymiad yr oedd wedi ei roi yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD, yn unol â'r Polisi ar gyfer Galw Ceisiadau i Mewn am Sgriwtini, oherwydd bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus ynghylch Cymal 5, bod y Pwyllgor yn cyfeirio'r Penderfyniad yn ôl i'r sawl a wnaeth y Penderfyniadau i'w ailystyried, cyn pen 10 diwrnod. Roedd natur pryderon y Pwyllgor fel y cawsant eu cofnodi uchod. Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw bryderon mewn perthynas â'r 10 penderfyniad arall yn y Rhybudd o Benderfyniad ac felly gellid gweithredu'r penderfyniadau hynny ar unwaith.**

*Cychwynnodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.20am*

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**